# Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

**2014 dccc 3**

## 4 Costau ymafael etc.

(1) Mae perchennog ceffyl yr ymafaelir ynddo gan awdurdod lleol o dan adran 2 yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol gostau a dynnir yn rhesymol wrth ymafael yn y ceffyl a'i gadw ac wrth ei fwydo a'i gynnal tra bo'n cael ei gadw.

(2) Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddychwelyd y ceffyl hyd nes y bydd y costau a dynnwyd yn y fath fodd wedi eu talu.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r perchennog sy'n datgan y swm y mae'r awdurdod lleol o'r farn bod y perchennog yn atebol i'w dalu o dan is-adran (1) ac yn cynnwys esboniad o—

(a) sut y pennwyd y swm hwnnw, a

(b) yr hawl i gyfeirio anghydfod i'w ddatrys gan Weinidogion Cymru a sut i arfer yr hawl honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar 28.1.2014, gweler **a. 10(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014, Adran 4.